# Holiadur cyfarwyddiadau (Trac Hawliadau Bychain)

| Yn y | Rhif yr Hawliad. |
|---|---|
| | |

I'w lenwi gan, neu ar ran,

pwy yw'r [2il] [3ydd] [ ] [Hawlydd] [Diffynnydd] [1af] [Hawlydd Rhan 20] yn yr hawliad hwn

Dylech nodi'r dyddiad ar gyfer dychwelyd yr holiadur ac enw'r llys y dylid ei ddychwelyd iddo, gan y gall hwnnw fod yn lys gwahanol i'r un lle cychwynnwyd yr achos.

Os ydych eisoes wedi setlo'r hawliad hwn (neu os byddwch yn ei setlo ar ddyddiad yn y dyfodol) ac nad oes arnoch angen iddo gael gwrandawiad neu fynd i dreial, rhaid i chi roi gwybod i'r llys ar unwaith.

## A Setliad/Cyfryngu

Dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil dylai'r partïon wneud eu gorau glas i setlo'u hachos. Ar yr adeg hon, dylech o hyd fod yn meddwl a oes modd i chi a'r parti(partïon) arall/eraill setlo'ch anghydfod heb fynd i'r lys.

Gallwch geisio setlo'r hawliad naill ai drwy negodi neu gynnal trafodaeth uniongyrchol gyda'r parti arall neu drwy gyfryngu. Os gallwch ddod i setliad, gall partïon gael cytundeb rhwymol a ellir ei orfodi os na chydymffurfir â thelerau'r cytundeb.

Dull o ddatrys anghydfod yw cyfryngu heb orfod mynd i wrandawiad llys, a lle mae'r partïon yn cael cymorth i ddatrys eu anghydfod, gyda chymorth cyfryngwr diduedd. Os bydd yr hawliad yn cael ei setlo ar y cam hwn, gall y partïon osgoi ffioedd llys pellach, costau ac amser sydd ynghlwm â pharatoi a mynd i wrandawiad.

Gallwch ddefnyddio unrhyw ddarparwr cyfryngu. Fodd bynnag, mae GLITEF yn darparu Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain cyfrinachol **am ddim** sydd ar gael i bartïon yn y rhan fwyaf o achosion hawliadau bychain sydd am lai na £10,000.

Fel arfer, caiff cyfryngu ei wneud dros y ffôn mewn apwyntiadau un awr sy'n gyfleus i'r partïon ac mae'n gyflymach nag aros am wrandawiad llys gerbron barnwr. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ac nid yw'n ofynnol i chi setlo os ydych yn gwneud hynny. Os na allwch ddod i gytundeb â'r parti arall, bydd yr hawliad yn mynd ymlaen i wrandawiad hawliadau bychain.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyfryngu yn www.gov.uk

Os bydd pob parti'n cytuno, bydd yr achos hwn yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain. Fodd bynnag, gall y llys orchymyn y gwasanaeth i gysylltu â chi i archwilio'r opsiwn o ddefnyddio gwasanaeth cyfryngu.

---

**A1** Ydych chi'n cytuno i'r achos hwn gael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Rhowch eich manylion cyswllt isod – Os bydd pob parti'n cytuno i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfryngu, bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i'r tîm cyfryngu hawliadau bychain a fydd yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad.

**Rhaid i chi lenwi gweddill y ffurflen waeth beth fo'ch ateb yn A1**

## B Eich manylion cyswllt

Nodiadau

Mae'n hanfodol eich bod yn darparu'r wybodaeth hon, yn enwedig os ydych wedi gofyn am gyfryngu. Bydd staff yn cysylltu â chi o fewn oriau swyddfa (9am - 5pm).

Eich enw llawn

Cyfeiriad ar gyfer Cyflwyno

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad E-bost


© Hawlfraint y Goron 2024

## C Trac

**C1** Ydych chi'n cytuno mai'r trac hawliadau bychain yw'r trac mwyaf addas ar gyfer yr hawliad hwn? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os Nac ydych, dywedwch pam, a nodwch y trac y credwch y dylid ei ddyrannu iddo

Nodiadau

Trac

Y trac hawliadau bychain – yn gyffredinol ar gyfer hawliadau gwerth is a llai cymhleth gyda gwerth o dan £10,000. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddarllen taflen **EX306 'Y trac hawliadau bychain yn y Llysoedd Sifil'.** Cewch gopi o'r daflen hon ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.ukk

## D Addasrwydd i benderfynu heb wrandawiad

**D1** A ydych o'r farn bod yr hawliad hwn yn addas i'w benderfynu heb wrandawiad, h.y. gan farnwr yn darllen ac yn ystyried yr achos ar sail y papurau, datganiadau tystion a dogfennau eraill a gaiff eu ffeilio gan y partïon, gwneud penderfyniad, a rhoi nodyn o resymau dros y penderfyniad hwnnw? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os nad ydych, esboniwch pam.

Nodiadau

Gall y llys benderfynu ar yr hawliad hwn heb wrandawiad: (a) os yw'r partïon yn cytuno; neu (b) pan fo'r 'Cynllun peilot ar gyfer penderfynu ar hawliadau bychain ar sail y papurau' yn gymwys, hyd yn oed os nad yw'r partïon yn cytuno. I gael rhagor o wybodaeth am y llysoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot a'r achosion sydd yn berthnasol a'r rhai nad ydynt yn berthnasol iddynt, gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 51ZC i CPR 51.

Mae'r rhesymau perthnasol yn cynnwys y bydd angen i'r barnwr glywed gan dystion yn uniongyrchol (ac os felly, nodwch yr anghydfod ffeithiol a'r tystion perthnasol) neu fod y materion mor gymhleth mae angen eu trafod ar lafar.

## E Ynglŷn â'r Gwrandawiad

**Lleoliad y Gwrandawiad**

**E1** Ym mha ganolfan wrandawiadau'r Llys Sirol y byddai'n well gennych i'r gwrandawiad hawliadau bychain gael ei gynnal a pham?

**Tystiolaeth Arbenigol**

**E2** A ydych yn gofyn am ganiatâd y llys i ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig arbenigwr? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych, nodwch pam a rhowch enw'r arbenigwr (os yw'n hysbys) a'r maes arbenigedd a'r gost debygol os caiff ei benodi.

**Tystion**

**E3** Faint o dystion, gan gynnwys chi eich hun, fydd yn rhoi tystiolaeth ar eich rhan yn y gwrandawiad? ☐

**Gwrandawiad**

**E4** A oes unrhyw ddyddiau yn y chwe mis nesaf pryd na fydd modd i chi, i arbenigwr neu dyst, fod yn bresennol yn y llys ar gyfer y gwrandawiad? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion

| | Dyddiadau **nad** ydynt ar gael |
|---|---|
| Chi eich hun | |
| Arbenigwr | |
| Tyst hanfodol arall | |

A fyddwch chi'n defnyddio cyfieithydd yn y gwrandawiad un ai ar eich cyfer chi neu ar gyfer tyst? ☐ Byddaf ☐ Na fyddaf

Os ydych wedi ateb Byddaf, nodwch y math o gyfieithydd

**E5** A ydych yn credu eich bod chi, neu dyst a fydd yn rhoi tystiolaeth ar eich rhan, yn agored i niwed mewn unrhyw ffordd y mae angen i'r llys ei ystyried? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych, esboniwch ym mha ffordd yr ydych chi neu'r tyst yn agored i niwed a pha gamau, cymorth neu addasiadau yr hoffech i'r llys a'r barnwr eu hystyried.

### Nodiadau

**Lleoliad**
Os yw'ch hawliad yn hawliad ddynodedig am arian, bydd yr achos fel arfer yn cael ei drosglwyddo i'r llys a ffefrir gan yr hawlwyr neu lys lleol y diffynyddion fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y gallwn drosglwyddo'r achos i'r llys hwn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler CPR Rhannau 3, 12, 13, 14 a 26.

**Tystiolaeth Arbenigol**
Rhaid i'r llys roi caniatâd i chi ddefnyddio tyst arbenigol. Bydd eich hysbysiad dyrannu yn dweud wrthych a oes caniatâd wedi'i roi. Noder mai'r terfyn uchaf ar gyfer ffioedd arbenigwyr y gellir eu hadennill yw £750. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddarllen taflen **EX306 'Y trac hawliadau bychain yn y Llysoedd Sifil'.** Cewch gopi o'r daflen hon ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

**Tystion**
Efallai y gofynnir i dystion roi tystiolaeth gan y naill barti neu'r llall. Mae angen i chi ddweud wrth y llys os ydych yn bwriadu galw tyst. Dylai treuliau tystion ar gyfer llety, teithio a cholli enillion gael eu talu gan y parti sy'n gofyn am iddynt fod yn bresennol.
Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddarllen **EX342 'Dod i wrandawiad llys'.** Gallwch gael y daflen hon ar-lein yn hmctformfinder.justice.gov.uk

**Gwrandawiad**
**Dyddiadau i'w hosgoi:** Dylech nodi y dyddiadau pan na fydd modd i chi, eich arbenigwr neu dyst hanfodol fod yn bresennol yn y llys oherwydd gwyliau neu ymrwymiadau eraill.

**Cyfieithwyr ar y Pryd:** Mewn rhai amgylchiadau, bydd y llys yn trefnu ac yn talu costau cyfieithydd ar y pryd. Os ydych angen cyfieithydd, dylech gysylltu â'r llys ar unwaith. Am ragor o fanylion ewch i'n gwefan www.justice.gov.uk dan 'cyfarwyddyd'.

## F Gwybodaeth arall

Nodiadau

**F1** A ydych chi wedi cael eich cynghori am eich hawl i roi tystiolaeth naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg?

☐ Do ☐ Naddo

**F2** A fyddwch chi a'ch tyst(ion) yn dymuno siarad Cymraeg neu Saesneg yn y llys, neu a fyddwch yn defnyddio'r ddwy iaith?

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

☐ Y ddwy

**F3** A fydd y dogfennau a gyflwynir i'r llys yn ystod yr achos yn Gymraeg neu'n Saesneg, neu a fydd rhai dogfennau yn Gymraeg a rhai yn Saesneg?

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

☐ Y ddwy

## Llofnod

**Rhaid i chi lofnodi'r ffurflen hon**

[Cynrychiolydd cyfreithiol ar gyfer yr [2il][3ydd][
] [Hawlydd[Diffynnydd] [1af] [Hawlydd Rhan 20]

---

**Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, dychwelwch hi i'r llys yn y cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen N149A - Rhybudd o Ddyraniad Arfaethedig i'r Trac Hawliadau Bychain.**

**Rhaid i chi hefyd anfon copi o'r ffurflen hon (N180 Holiadur Cyfarwyddiadau) at bob un o'r partïon eraill yn yr achos hwn.**

Dewch o hyd i wybodaeth am sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi iddynt wrth lenwi ffurflen: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter